

# Geirfa

### Stondin

Cert syml, neu fwrdd, mewn digwyddiad lle gallwch chi brynu nwyddau, fel bwyd neu anrhegion. Roedd gan Dylan stondin i werthu ei anrhegion yn yr Eisteddfod.

### Incwm

Yr arian a ddaw i mewn i fusnes oddi wrth ei gwsmeriaid. Incwm Dylan oedd cyfanswm yr arian a dalodd ei gwsmeriaid iddo.

### Nwyddau

Yr eitemau y mae siop, neu stondin, yn eu gwerthu i gwsmeriaid.

### Buddsoddi

Gwario arian ar rywbeth y gallwch ei ddefnyddio i wneud mwy o arian. Yn union fel y gwnaeth Dylan wrth wario arian ar deganau, a'u gwerthu am bris uwch.

### Cyfanwerthwr

Lle y mae busnesau yn gallu prynu llawer o nwyddau, fel teganau, am brisiau rhatach. Prynodd Dylan ei deganau a'i anrhegion gan gyfanwerthwr.

### Elw

Y gwahaniaeth rhwng costau ac incwm busnes. Talodd Dylan £5.40 am yr hetiau draig a'u gwerthu am £9.18.  £9.18 - £5.40 = £3.78. Gwnaeth Dylan elw o £3.78 ar bob het a werthodd.

### Codi arian

Codi arian o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Cododd Dylan arian o'i gyfrif Cymdeithas Adeiladu'r Principality er mwyn ei fuddsoddi yn ei stondin.

### Adneuo

Rhoi arian i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Adneuodd Dylan ei holl incwm o'i stondin i mewn i'w gyfrif Cymdeithas Adeiladu'r Principality.

### Stoc

Yr eitemau sydd gan fusnes i'w gwerthu i gwsmeriaid. Prynodd Dylan ei stoc gan y cyfanwerthwr, ac yna ei gwerthu i'w gwsmeriaid.

### Cwsmeriaid

Y bobl sy'n prynu'r nwyddau. Cwsmeriaid Dylan oedd y bobl a brynodd deganau ac anrhegion o'i stondin. Cwsmer y cyfanwerthwr oedd Dylan.

### Ad-daliad

Rhoi arian yn ôl i gwsmer. Rhoddodd y cyfanwerthwr arian yn ôl i Dylan am yr eitemau a ddychwelodd.

### Pris manwerthu

Y pris y mae busnes yn ei godi ar gwsmer am ei nwyddau. Y prisiau manwerthu yw'r prisiau a gododd Dylan ar ei gwsmeriaid am ei deganau a'i anrhegion.

### Y pris manwerthu a argymhellir

Y prisiau y mae'r cyfanwerthwr yn eu hargymell y dylai busnes eu codi ar ei gwsmeriaid. Dilynodd Dylan y prisiau manwerthu a argymhellwyd, yn hytrach na chyfrifo rhai ei hun.

Wedi'i gyflwyno gan:
Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu



**Lle mae cartref yn bwysig**
**www.sgwadsafiodylan.co.uk**